

Dyddiad cyhoeddi **Ebrill 2013**

Gwybodaeth i'r cyhoedd

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ynghylch pryd
a sut y gellir
defnyddio
triniaethau newydd
mewn arfer clinigol.*

Trin presbyopia drwy osod lens artiffisial yn y gornbilen

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio gosod lens artiffisial yng nghornbilen llygad yn y GIG i drin pobl â golwg hir sy'n gysylltiedig ag oedran (presbyopia). Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio presbyopia na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhai cwestiynau efallai y byddwch am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os bydd meddyg am osod lens artiffisial yn y gornbilen i drin presbyopia, dylai sicrhau bod cleifion yn deall mai triniaeth gosmetig ydyw yn bennaf a all leihau'r angen i wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd. Dylai cleifion fod yn ymwybodol o opsiynau rheoli eraill a dylid cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynghylch pa mor dda y mae'n gweithio, a risgiau cyffredin posibl y driniaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r ddogfen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig waith i fonitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth. Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach ar osod lens artiffisial yn y gornbilen i drin presbyopia. Dylai hyn gynnwys casglu manylion am gymhlethdodau gyda'r driniaeth a pha mor dda mae pobl yn ei wneud yn yr hirdymor. Efallai y bydd NICE yn adolygu'r driniaeth os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

Sylwadau eraill gan NICE

Nododd NICE fod presbyopia yn gyflwr sy'n tueddu i waethygu dros amser ac felly mae'n bwysig cael tystiolaeth hirdymor ar ba mor dda mae'n gweithio a pha mor ddiogel ydyw.

Nododd NICE fod nifer o fathau gwahanol o lensys artiffisial ar gael ar gyfer y driniaeth hon ac y gallant wahaniaethu o ran pa mor dda maent yn gweithio a pha mor ddiogel ydynt.

*Efallai nad hon yw'r
unig driniaeth bosibl
ar gyfer presbyopia.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha
driniaethau eraill
sydd ar gael.*

Gosod lens artiffisial yn y gornbilen

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'gosod mewnosodiad yn y gornbilen er mwyn cywiro presbyopia'.

Y gornbilen yw haen allanol glir y llygad.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Presbyopia yw'r enw meddygol am olwg hir sy'n datblygu oherwydd oedran, fel arfer ymysg pobl dros 40 oed. Bydd unigolyn â golwg hir yn gallu gweld gwrthrychau pell yn glir ond bydd gwrthrychau agos yn aneglur. Gall y lens yn y llygad gyffio gydag oedran a gall hyn ei gwneud hi'n anodd ffocysu ar wrthrychau agos. Fel arfer caiff presbyopia ei gywiro gyda sbectol neu lensys cyffwrdd. Mewn rhai cleifion caiff llawdriniaeth laser (LASIK) neu lawdriniaeth i osod lens newydd eu hystyried.

Nod gosod lens artiffisial yn y gornbilen yw gwella golwg o wrthrychau agos drwy newid y ffordd y mae golau'n pasio drwy'r llygad. Fel arfer, cynhelir y driniaeth o dan anesthetig lleol ar y llygad wannaf. Gwneir fflap neu boced fach yng nghanol y cornbilen, gan ddefnyddio laser neu offeryn llawfeddygol a elwir yn microceratom, a gosodir lens artiffisial y tu mewn iddi gyda chymorth teclyn arbennig. Mae'r fflap neu'r boced yn selio ei hun ac yn dal y lens artiffisial yn ei le (nid oes angen pwythau). Caiff corticosteroidau a diferion llygaid gwrthfotig fel arfer eu rhagnodi'n syth ar ôl y driniaeth am gyfnod byr o amser. Dylid defnyddio dagrau artiffisial am gyn hired ag sydd ei angen. Gellir tynnu'r lens artiffisial neu osod un arall yn ei le os oes angen.

Gall pobl sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd, fel y rhai â medrusrwydd cyfyngedig, gael budd o'r driniaeth hon yn arbennig.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig gosod lens artiffisial yng nghornbilen eich llygad er mwyn trin presbyopia, dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau yn ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cynnal y driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y ddogfen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar bum astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mesurodd dwy astudiaeth (yn cynnwys 32 a 39 o gleifion) newidiadau mewn golwg ar ôl y driniaeth. Cymerwyd mesuriadau am hyd at dair neu bedair blynedd ar ôl i'r cleifion gael y driniaeth. Yn gyffredinol, gwelwyd gwelliant mewn golwg byr a chanolig, a gostyngiad bach mewn golwg hir.

Yn yr astudiaeth o 32 o gleifion, gwelwyd gostyngiad (gwelliant) yn y pellter darllen cyfartalog o 48.1cm i 38.9cm. Aseswyd y 32 o gleifion hefyd ar eu cyflymder darllen. Gwelwyd bod hyn wedi gwella o 142 i 149 o eiriau fesul munud, ddwy flynedd ar ôl y driniaeth.

Canfu dwy o'r astudiaethau (yn cynnwys 32 a 34 o gleifion) fod cleifion yn dibynnu llai ar sbectolau darllen ar ôl cael y driniaeth. Yn yr astudiaeth o 32 o gleifion, gostyngodd canran y cleifion oedd yn defnyddio sbectolau darllen drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser o 88% i 6%, dair blynedd ar ôl cael y driniaeth. Canfu'r astudiaeth o 24 o gleifion eu bod yn gymharol fodlon ar y driniaeth ddwy flynedd ar ôl ei chael, ac ar y graddau yr oedd yr angen iddynt ddefnyddio sbectolau darllen wedi lleihau mewn golau llachar. Roedd cleifion yn llai bodlon ar faint yr oedd hyn wedi lleihau mewn golau tywyll. O blith y rhain, dywedodd 18 y byddent yn cael y driniaeth eto, roedd pump yn ansicr ac ni fyddai un yn cael y driniaeth.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Dywedwyd mai'r prif ffactorau llwyddiant

oedd golwg agos neu ddarllen gwell (heb sbectolau neu lensys cyffwrdd).

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 39 o gleifion, bu'n rhaid tynnu'r lens artiffisial mewn pedwar claf oherwydd problemau gyda'r fflap yr oedd y lens artiffisial wedi'i osod ynddo, aflonyddu ar y golwg a lleugylchoedd o olau a disgleirdeb. Dychwelodd golwg cleifion i'r ffordd yr oedd cyn y driniaeth ar ôl i'r lens gael ei dynnu. Yn yr astudiaeth, datblygodd pum claf gataractau yn y llygad a gafodd ei drin, a bu'n rhaid iddynt gael llawdriniaeth.

Symudodd y lens artiffisial allan o ganol y boced a bu'n rhaid ei ailosod yn achos 2 o'r 32 o gleifion mewn un astudiaeth. Gwellodd golwg y ddau glaf ar ôl hynny. Yn yr un astudiaeth, datblygodd un claf grychau ar wyneb y gornbilen ar ôl deufis a bu'n rhaid iddo gael triniaeth gan gynnwys pwythau.

O blith y 32 o gleifion, collodd 14 rywfaif o olwg hir, gwellodd golwg hir pedwar a gwellodd golwg byr pedwar, dair blynedd ar ôl y driniaeth.

Gwelwyd hefyd achosion o leugylchoedd mewn 20 o gleifion yn yr astudiaeth o 32 o gleifion - roedd y rhan fwyaf yn achosion cymedrol neu ysgafn, ond yn achos un roeddent yn ddifrifol. Roedd tri chlaf wedi profi lleugylchoedd ysgafn neu gymedrol cyn y driniaeth. Yn yr un astudiaeth, nododd pum claf broblemau difrifol gyda'u golwg yn ystod y nos.

Mewn astudiaeth o 508 o gleifion, gwelwyd llai o sensitifrwydd i wahaniaethau (gallu cleifion i wahaniaethu rhwng golau a thywyll) mewn amodau wedi'u goleuo'n dda a golau isel flwyddyn ar ôl y driniaeth.

Mewn astudiaeth o wyth claf, nododd pob claf ychydig o ddisgleirdeb o amgylch ymyl y gornbilen ddwy flynedd ar ôl y driniaeth.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Dywedwyd, mewn egwyddor, y gallai problemau eraill gynnwys achosion o haint, creithiau, teneuo, 'toddi' (llid difrifol) a chymyledd yn y gornbilen, anhawster wrth fesur pwysau yn y llygad, anawsterau wrth addasu i'r ffaith bod un llygad yn dominyddu o ran golwg agos, llai o allu i weld ymhell, a gweld gwrthrychau'n llai clir ac mewn llai o fanylder na'r hyn y gellid ei wneud wrth wisgo sbectol cyn y driniaeth.

Rhagor o wybodaeth am presbyopia

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

I gael manylion holl ganllawiau NICE ar bresbyopia, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol gwahanol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â 'Gosod mewnosodiad yn y gornbilen er mwyn cywiro presbyopia'. Mae'r ddogfen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn guidance.nice.org.uk/HTG311

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r ddogfen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Care Excellence

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8856-3

N2922 April 2013

© National Institute for Health and Care Excellence, 2013. All rights reserved.

This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.